# Y Pwyllgor Deisebau

## Cofnodion (PET(3)-11-08)

**Dyddiad: Dydd Mercher 9 Gorffennaf 2008**
**Amser: 9:02am - 10:46am**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 1, y Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd**

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Janice Gregory AC, Ogwr (Cadeirydd Dros Dro)

Andrew RT Davies AC, Canol De Cymru

Bethan Jenkins AC, Gorllewin De Cymru

Kirsty Williams AC, Brycheiniog a Sir Faesyfed

### Swyddogion

Stefan Sanchez, Clerc

Alun Davidson, Dirprwy Glerc

Joanest Jackson, Cynghorydd Cyfreithiol

### Eitem 1: Ethol Cadeirydd Dros Dro

Etholwyd Janice Gregory AC yn Gadeirydd Dros Dro o dan Reol Sefydlog 10.19

### Eitem 2: Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

Anfonwyd ymddiheuriadau gan Val Lloyd AC a Mike German AC. Roedd Janice Gregory AC a Kirsty Williams AC yn bresennol fel dirprwyon.

### Eitem 3: P-03-114 Ffyrdd diogel i ysgolion

PET(3) 11-08 Papur 1

Bu'r pwyllgor yn ystyried y ddeiseb hon

Cam i'w gymryd

Cytunodd y pwyllgor i:

Gau'r ddeiseb hon gan fod y deisebwyr wedi gofyn am gael ei thynnu yn ôl.

### Eitem 4: Deisebau newydd 9:10am-9:20am

PET(3) 11-08 Papur 2

(i) P-03-142

Symud cerflun o Margaret Thatcher o'r Senedd

Bu'r pwyllgor yn ystyried y ddeiseb hon am y tro cyntaf.

Cam i'w gymryd

Cytunodd y pwyllgor i:

Ysgrifennu at Gomisiwn y Cynulliad yn gofyn iddo ddarparu manylion am y rheolau, y rheoliadau a'r gweithdrefnau ar gyfer arddangos gwaith celf yn y Senedd; a

Manylion am bwy sydd yn penderfynu hynny ac, yn yr achos dan sylw, pwy a wnaeth y penderfyniad i ganiatáu arddangos y gwaith celf hwn.

(ii) P-03-150

Safonau Canser Cenedlaethol

Bu'r pwyllgor yn ystyried y ddeiseb hon am y tro cyntaf.

Cam i'w gymryd

Cytunodd y pwyllgor i:

Ysgrifennu at y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn gofyn iddi ymchwilio i weld a yw'r Byrddau Iechyd Lleol wedi sefydlu'r strategaethau a'r cynlluniau gweithredu angenrheidiol i gyflawni'r Safonau Canser Cenedlaethol erbyn Mawrth 2009, ac yn benodol ymchwilio i'r sefyllfa mewn perthynas â Bwrdd Iechyd Lleol Rhondda Cynon Taf; a

Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol amlinellu'r sancsiynau a'r camau a gymerir yn erbyn Byrddau Iechyd Lleol nad ydynt yn cyrraedd y safonau a bennir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

(iii) P-03-157

Coleg Ffederal Cymraeg

Bu'r pwyllgor yn ystyried y ddeiseb hon am y tro cyntaf.

Cam i'w gymryd

Cytunodd y pwyllgor i:

Ysgrifennu at y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau yn gofyn iddi roi gwybod i'r pwyllgor am ei chynlluniau ar gyfer Coleg Ffederal Cymraeg; a

Gwahodd y deisebwyr i gyflwyno'u deiseb i'r pwyllgor mewn cyfarfod yn y dyfodol.

### Eitem 5: Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

PET(3) 11-08 Papur 3

(i) P-03-068

Fflatiau Llaid y Rhyl

Bu'r pwyllgor yn ystyried y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

Cam i'w gymryd

Cytunodd y pwyllgor i:

Ysgrifennu at y deisebwyr.

(ii) P-03-073

Trwyddedau gwaith i nyrsys o dramor

Bu'r pwyllgor yn ystyried y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

Cam i'w gymryd

Cytunodd y pwyllgor i:

Gau'r ddeiseb gan fod digwyddiadau wedi ei goddiweddyd.

(iii) P-03-085

Meddygfeydd yn Sir y Fflint

Bu'r pwyllgor yn ystyried y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

Cam i'w gymryd

Cytunodd y pwyllgor i:

Ddisgwyl am ateb terfynol gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

(iv) P-03-093

Gorsaf Bŵer Aberddawan

Bu'r pwyllgor yn ystyried y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

Cam i'w gymryd

Cytunodd y pwyllgor i:

Gau'r ddeiseb gan na ellir ei symud ymlaen ymhellach.

(v) P-03-103

Addysg gyfrwng Gymraeg yn yr hen Sir Gwent

Bu'r pwyllgor yn ystyried y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

Cam i'w gymryd

Cytunodd y pwyllgor i:

Gau'r ddeiseb gan na ellir ei symud ymlaen ymhellach.

Ysgrifennu at y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau i ofyn am gynnwys y deisebwyr ar unrhyw restrau ymgynghori yn y dyfodol mewn perthynas ag addysg Gymraeg.

(vi) P-03-113

Prawf PSA

Bu'r pwyllgor yn ystyried y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

Cam i'w gymryd

Cytunodd y pwyllgor i:

Gau'r ddeiseb gan na ellir ei symud ymlaen ymhellach.

(vii) P-03-136

Parcio yn y Mynydd Bychan a Birchgrove

Bu'r pwyllgor yn ystyried y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

Cam i'w gymryd

Cytunodd y pwyllgor i:

Ddisgwyl am wybodaeth bellach gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Gwahodd y deisebwyr i gyflwyno'u deiseb i'r pwyllgor mewn cyfarfod yn y dyfodol.

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**

**Gorffennaf 2008**